# Polisi Goruchwylio

**Nod**
Sicrhau awyrgylch diogel, parchus ac hapus yn yr ysgol bob amser.

**Cyffredinol**
Ni ddylid gadael disgyblion heb oruchwyliaeth.

**Yn y dosbarth**
Os yw'r athro yn gorfod gadael y dosbarth, rhaid trefnu fod rhywun yn goruchwylio'r disgyblion.

**Cyn yr ysgol**
- Caiff plant y Clwb Gofal gyrraedd o 8:10 a'r Clwb Brecwast o 8:30- 8:50. Byddant yn cael eu goruchwylio gan oruchwylwyr Clwb Brecwast yn y neuadd.
- Ni chaiff y plant adael y neuadd heb ganiatâd
- Bydd goruchwylwraig yn y neuadd drwy gydol yr amser.
- Anogir rhieni i beidio dod â'u plant i'r ysgol cyn 8:50 yn y bore, onibai eu bod yn mynd i'r Clwb Gwarchod neu Glwb Brecwast.
- O 8:50 ydd yr athrawon yn gyfrifol am y disgyblion yn yr ystafelloedd dosbarth.

**Amser Chwarae**
- Bydd athrawon a chymhorthyddion ar ddyletswydd cyfnod egwyl, gan ddilyn amserlen bendant sydd yn cael ei hadolygu yn flynyddol ac yna fel bod angen.
- Bydd y staff yn mynd o gwmaps yr iard/cae yn goruchwylio, sgwrsio a chwarae gyda'r disgyblion.
- Cyfrifoldeb yr athrawon dosbarth yw sicrhau fod eu disgyblion i gyd allan yn ystod amser chwarae.
- Os yw'r tywydd yn anffafriol, bydd y disgyblion yn aros yn eu dosbarthiadau gyda'r personau ar ddyletswydd yn goruchwylio.
- Ni chaiff unigolion o du allan i'r ysgol grwydro ar dir yr ysgol, onibai fod ganddynt drefniant i wneud hynny.

**Amser Cinio**
- Bydd goruchwylwyr ar yr iard/cae pob amser cinio, yn mynd allan gyda'r plant.
- Os yw'r tywydd yn anffarfiol, caiff y disgyblion eu goruchwylio yn eu dosbarthiadau.
- Bydd goruchwylwyr yn adrodd yn ôl i'r Pennaeth os oes unrhyw broblem wedi codi ac ymatebir fel bo angen.
- Ni chaiff unigolion o du allan i'r ysgol grwydro ar dir yr ysgol, onibai fod ganddynt drefniant i wneud hynny.

**Ar ôl ysgol**
- Caiff disgyblion y derbyn – Bl 2 eu trosglwyddo i oedolyn cyfrifol gan eu hathrawes neu gymhorthydd, â hynny drwy giât ochor.
- Caiff disgyblion Bl 3-6 eu hebrwng i'r giât wrth ymyl y ffordd gan athrawes neu gymhorthydd.
- Trwy drefniant bydd rhai disgyblion D-Bl2 yn cerdded gyda brodyr neu chwiorydd hŷn i lawr at y giât hefo'r ddau ddosbarth hynaf.

- Disgwylir i bawb gerdded yn daclus a synhwyrol gan ddilyn rheolau'r ysgol wrth adael.
- Yn dilyn trosglwyddo'r disgyblion i'w rheini/goruchwylwyr, nid yw'r athrawon a chymorthyddion yn gyfrifol amdanynt.
- Os yw rhieni disgyblion Blwyddyn 3-6 am i'w plant gerdded adref eu hunain, rhaid trefnu hyn o flaen llaw.

Mabwysiadu: Tymor yr Hydref 2013

Adolygwyd: Blynyddol- Tymor yr Hydref

**Cadeirydd y Llywodraethwyr:** Gwenllian Hughes
**Dyddiad:** 12/11/24

